SL(5)137 - Rheoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017

Cefndir a Phwrpas

Mae Adran 33(1)(a) o **Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** yn gwahardd, yn ddarostyngedig i rai eithriadau, dyddodi gwastraff rheoledig neu wastraff echdynnol mewn unrhyw dir nac arno, ac eithrio pan fydd hynny yn unol â chaniatâd amgylcheddol. Mae'n drosedd i dramgwyddo adran 33(1)(a).

Mae'r **Rheoliadau** hyn yn diwygio **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** i fewnosod adran 33ZB newydd. Mae hyn yn galluogi awdurdodau casglu gwastraff Cymru i roi hysbysiadau cosb penodedig am droseddau tipio anghyfreithlon ar raddfa fach. Mae'n bosibl na fydd hysbysiadau cosb penodedig o'r fath yn llai na £150, ac yn ddim mwy na £400. Os na phennir swm, bydd y gosb yn £200. Y mae'n bosibl y bydd gostyngiad am dalu'n gynnar.

Y weithdrefn

Cadarnhaol

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y Goblygiadau yn Sgîl Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o "ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE" o dan gymal 2 o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil") fel y'i cyflwynwyd, felly bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu cadw fel cyfraith ddomestig a byddant yn parhau i fod mewn grym yng Nghymru ar ôl y diwrnod gadael.

Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu'r Rheoliadau hyn er mwyn ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadael, yn amodol ar rai cyfyngiadau (er enghraifft, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pŵer hwn i wneud rhywbeth sy'n anghyson ag addasiadau i "ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir" a wnaed gan Weinidogion y DU o dan y Bil).

Ni fydd y Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (na Chynulliad Cenedlaethol Cymru) addasu unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir. Rhoddir pŵer i addasu holl ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir i Weinidogion y DU; mae hyn yn cynnwys y pŵer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir mewn meysydd datganoledig, heb yr angen am ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Weinidogion Cymru.

Felly, os bydd Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn defnyddio eu pwerau i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir, bydd pŵer Gweinidogion Cymru i addasu'r Rheoliadau hyn yn gyfyngedig, fel na all Gweinidogion Cymru wneud dim sy'n anghyson â'r addasiad a wneir gan Weinidogion y DU.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb y llywodraeth.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad i fynegi'r pwyntiau a nodwyd o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE.